# DANGOSFWRDD DOFEDNOD
## Hydref 2018 – Medi 2019

**% o weithgaredd sy'n berthnasol i'r sector Dofednod:**

**22%** O WEITHGAREDD YN YMWNEUD Â DOFEDNOD

Mae **328** O FUSNESAU SYDD WEDI COFRESTRU **gyda Cyswllt Ffermio yn dod o'r sector Dofednod.**

### Rhwydwaith Arddangos

#### Rheoli gwiddon coch mewn unedau dofednod maes

Cynhaliwyd arbrawf ar Safle Ffocws Wern Farm ger Y Trallwng ar ddefnyddio brechlyn i reoli gwiddon coch. Mae gwiddon coch yn broblem fawr yn y diwydiant ieir dodwy yn y DU. Mae'n gallu achosi problemau lles sylweddol i'r adar ac mae'n gallu arwain at leihad o hyd at 25% mewn cynhyrchiant, a chynnydd mewn cyfraddau marwolaeth.

Bu'r prosiect yn asesu'r sefyllfa gwiddon coch presennol ar y fferm gan ddefnyddio trapiau gwiddon coch a osodwyd yn yr uned. Defnyddiwyd y brechlyn Exzolt ar yr haid a bu perfformiad yr haid yn cael ei gofnodi. Byddant yn parhau i fonitro trapiau gwiddon coch i ddangos nifer y gwiddon coch ar yr uned a llwyddiant y brechlyn.

#### Gwell safonau bioddiogelwch yn allweddol er mwyn lleihau'r defnydd o wrthfiotigau ar ffermydd dofednod yng Nghymru

Cynhaliodd Cyswllt Ffermio gyfres o ddigwyddiadau gyda'r nod o hyrwyddo defnydd cyfrifol o wrthfiotigau ar ffermydd dofednod. Dywedodd y milfeddyg dofednod arbenigol, Ian Jones, Hafren Veterniary Group, y byddai bioddiogelwch llym ar y fferm ynghyd â brechlynnau yn helpu cynhyrchwyr wyau a brwyliaid yng Nghymru i barhau gyda'u tuedd syfrdanol o leihau'r defnydd o wrthfiotigau. Gall cynhyrchwyr dofednod ddylanwadu i raddau ar ddiogelu pobl rhag ymwrthedd gwrthficrobaidd drwy barhau i adolygu bioddiogelwch ar bob cam yn ystod y broses gynhyrchu a thrwy fabwysiadu arferion i reoli clefydau.

#### Digwyddiad Moch a Dofednod

Cynhaliodd Cyswllt Ffermio'r digwyddiad undydd cyntaf yn canolbwyntio ar Foch a Dofednod ym mis Mehefin 2019, ar y cyd gyda Menter Moch Cymru. Bu sesiwn y bore yn canolbwyntio ar ddofednod, a sesiwn y prynhawn yn canolbwyntio ar foch.

Roedd y siaradwyr yn cynnwys:

- Nathan Ward, Cyfarwyddwr Uned Fusnes (Cig, Pysgod a Dofednod) gyda Kantar, a fu'n rhoi trosolwg o dueddiadau siopwyr a chwsmeriaid ar y farchnad.
- Ian Jones, arbenigwr dofednod a milfeddyg, Hafren Vets
- David Hodson, arbenigwr dofednod, Rosehill Agricultural Trading
- Osian Williams, cynhyrchwr wyau yn rhoi diweddariad ar y prosiect rheoli gwiddon coch ar unedau dofednod y mae'n ei gynnal ar un o Safleoedd Ffocws Cyswllt Ffermio.

*Cyfle gwych i ddysgu mwy am imiwnedd"*

*"Wedi dysgu llawer am widdon coch a brechlynnau"*

*"Digwyddiad gwych. Mae angen i ni wybod mwy am ein diwydiant"*




Cliciwch yma neu ar y sgrin deledu i wylio uchafbwyntiau'r digwyddiad.

### Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Mae'r erthyglau technegol canlynol wedi cael eu creu gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

- DEFNYDDIO TECHNOLEG HIDLO TRWY BILEN I LEIHAU LLYGREDD AMAETHYDDOL
- DEFNYDDIO TECHNOLEG DELWEDDU THERMOL I WELLA GWAITH CYNHYRCHU DA BYW

### Grwpiau Trafod

CYNHALIWYD **3** CYFARFOD GRŴP TRAFOD DOFEDNOD gyda **35** O FYNYCHWYR

#### Astudiaeth Achos

**Grŵp Trafod Dofednod North Mont – Gwneud y gorau o'ch ynni**

Ym mis Mehefin, estynnodd y Grŵp Dofednod wahoddiad i Chris o gwmni ynni Westflight yng Nghanolbarth Cymru i fynychu eu cyfarfod i adolygu eu biliau ynni presennol a darparu cyngor ynglŷn â sut y byddai modd arbed costau. Yn ystod y cyfarfod, daeth pob aelod o'r grŵp â'u bil ynni diweddaraf gyda nhw er mwyn i Chris allu darparu adborth a chyngor.

Gwnaeth Chris gyflwyniad i ddangos i aelodau'r grŵp beth oedd pob elfen o'r bil yn ei olygu. Y peth pwysicaf i fusnesau yw sicrhau eu bod nhw ar y tariff cywir. Roedd pob busnes heblaw un ar y tariff cywir; roedd y busnes arall ar dariff gyda chostau uchel, felly cynghorodd Chris y busnes sut i newid i'r tariff cywir i arbed costau.

Yna, nododd Chris bwysigrwydd mesur a chofnodi defnydd trydan yn barhaus er mwyn sicrhau bod y busnes/busnesau yn gweithredu yn y modd mwyaf effeithlon â phosibl. Y meysydd pwysicaf i ganolbwyntio arnynt yw:

- Cyfanswm defnydd blynyddol
- Defnydd fesul menter
- Defnydd fesul uned stoc
- Costau ynni fel canran o gostau'r fferm

Ar ôl egluro sut mae'r grid cenedlaethol yn gweithredu a sut mae'n ateb y galw, aeth Chris yn ei flaen i drafod ynni adnewyddadwy, gan egluro, er bod y taliadau cymhelliant (FIT) bellach wedi dod i ben, dylai gosod system ynni adnewyddadwy fod yn ddewis hyfyw ar gyfer pob busnes sy'n defnyddio llawer iawn o ynni megis ffermydd dofednod. Gyda chostau gosod systemau'n gostwng a phris trydan yn codi, mae ynni adnewyddadwy unwaith eto yn ddewis hyfyw, os nad hanfodol, i ffermwyr ei ystyried.

I gloi, dangoswyd data o Safle Ffocws Cyswllt Ffermio, Fferm Trebared, Aberteifi, a bu Chris yn amlinellu'r prosiect 'Integreiddio ynni adnewyddadwy ar fferm laeth' a'r ffaith fod y busnes yn prynu ynni lle nad oedd angen o ganlyniad i gamgymeriadau'n ymwneud â chysylltu tyrbinau gwynt tri cham gydag offer godro un cam. Ar yr un pryd, roedden nhw'n allforio hyd at draean o'r trydan a gynhyrchwyd ganddynt.

Ers gosod y systemau ynni adnewyddadwy a datrys problemau cychwynnol, mae'r busnes wedi haneru er filiau ynni.

### Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

**Cynhaliwyd 114 o ddigwyddiadau**

Roedd y prif bynciau yn cynnwys:

- OPSIYNAU RHEOLI DŴR
- FFERMIO AR GYFER Y DYFODOL

*Mae themâu Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol yn aml yn croesi sawl sector ac yn denu ffermwyr o bob sector.

## Cymorthfeydd

**Cynhaliwyd 129 o gymorthfeydd**

Roedd y prif bynciau yn cynnwys:

- CYMORTHFEYDD RHEOLI ARIAN
- CYMORTHFEYDD ADOLYGIAD BUSNES DIGIDOL
- CYMORTHFEYDD CYNLLUNIO
- CYMORTHFEYDD OLYNIAETH
- CYMORTHFEYDD MARCHNATA AC ARALLGYFEIRIO

Mynychodd busnes dofednod un o'r Cymorthfeydd Marchnata ac Arallgyfeirio gan ei fod yn dymuno trafod y posibilrwydd o werthu wyau dofednod aml-rywogaeth, perlysiau, blodau, ffrwythau meddal ac asbaragws i farchnadoedd a busnesau lleol. Roedd y busnes hefyd eisiau trafod y posibilrwydd o agor y fferm i grwpiau ieuenctid er mwyn cynnig cyflwyniad a phrofiad o'r diwydiant amaeth.

## Mentora

Mae gennym ni **4 Mentor Dofednod** ar y fframwaith



Cliciwch yma am **broffil Brian**



Cliciwch yma am **broffil Helen**



Cliciwch yma am **broffil Malcolm**



Cliciwch yma am **broffil Mark**

Mae gan **2** fentor arall brofiad o'r diwydiant Dofednod

Mae **4%** o'r unigolion sy'n cael eu mentora yn derbyn cyngor ar faterion yn ymwneud â dofednod (mae nifer yn cynnwys newydd ddyfodiaid i'r sector dofednod)

- CYNLLUNIO UNED DDOFEDNOD LWYDDIANNUS
- ARALLGYFEIRIO I GYNHYRCHU WYAU
- GWELLA IECHYD A DIOGELWCH AR SAFLE DDOFEDNOD

## Agrisgôp

CYNHALIWYD **58** O GYFARFODYDD YN YMWNEUD Â'R SECTOR DOFEDNOD

Dyma rai enghreifftiau o themâu'r grwpiau:

- Magu cywennod
- Addysg fferm a chefn gwlad
- Defnydd amgen o dail dofednod
- Ymweliad â fferm ddofednod

## Cyfnewidfa Rheolaeth

**Cyfnewidfa Rheolaeth Sarah James**

**Pwnc:** Defnydd amgen o Dail Dofednod

**Gwledydd:** Lloegr, Gogledd Iwerddon, Yr Alban a'r Iseldiroedd

Ar ôl arallgyfeirio i gynhyrchu wyau maes, daeth Sarah yn ymwybodol o'r problemau cynyddol yn ymwneud â gwaredu gwastraff yn deillio o gynhyrchu dofednod, sef tail. Gydag angen cynyddol i ganfod ffyrdd eraill o droi'r gwastraff hwn yn ased ac ychwanegu ffrwd incwm ychwanegol, penderfynodd edrych ar hyn yn fwy manwl drwy'r rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth.

Cliciwch yma i ddarllen adroddiad Sarah.

**Cyfnewidfa Rheolaeth Llŷr Jones**

**Pwnc:** Lleihau lefelau Amonia mewn Unedau Dofednod Maes

**Gwledydd:** Yr Alban, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Iseldiroedd



Wrth ymgeisio am ail sied ddofednod ar ei fferm, daeth Llŷr yn ymwybodol bod lefelau amonia a gynhyrchir ym myd amaeth yn uchel. Penderfynodd edrych ar arferion da er mwyn lleihau lefelau amonia, ond hefyd i gynnal yr un lefel cynhyrchiant.

Cliciwch yma i ddarllen adroddiad Llŷr.

## Hyfforddiant

Bu pedwar cyfnod ymgeisio rhwng mis Hydref 2018 a mis Medi 2019 gyda **808** o achosion o hyfforddiant wedi cael eu darparu yn ystod y cyfnod hwn.

Roedd **42** o'r rhain yn fusnesau sy'n cynnwys Dofednod fel sector cynradd neu is-sector.

| GWELLA BUSNES | HYFFORDDIANT TECHNEGOL | DEFNYDDIO PEIRIANNAU AC OFFER |
|---|---|---|
| **8** | **20** | **14** |
| UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT | UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT | UNIGOLYN WEDI DERBYN HYFFORDDIANT |

## E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â'r sector Dofednod:

- PIGO NIWEIDIOL MEWN IEIR DODWY
- RHEOLI TAIL DOFEDNOD
- PARASITIAID MEWN DOFEDNOD

Am ragor o fanylion am e-ddysgu, ewch i'r wefan.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government